# EGWYL

## Johannes Brahms

(1833-97)
SYMFFONI RHIF 4 YN E LEIAF, OP.98

1 **Allegro non troppo**
2 **Andante moderato**
3 **Allegro giocoso**
4 **Allegro energico e passionato**

Tybir weithiau fod cyfnod trasig ym mywyd cyfansoddwr yn sail i bob symffoni drasig fawreddog. Arweiniodd Tchaikovsky y perfformiad cyntaf o'i Symffoni *Pathétique* ychydig ddiwrnodau cyn ei hunanladdiad, ac ysgrifennodd Mahler ei Nawfed Symffoni o dan gysgod marwolaeth. Yn achos Pedwaredd Symffoni Brahms, hyd y gwyddom ni nid oes unrhyw amgylchiadau trasig neu ddramatig yn gysylltiedig â'i chyfansoddiad (heblaw bod y llawysgrif wedi'i hachub o dân). Ond eto, disgrifiwyd y symffoni fel "trasig" o'r cychwyn cyntaf a siaradodd Brahms hyd yn oed am ei "hymdeimlad trasig".

Ar adeg ei chyfansoddi, roedd Brahms newydd droi'n hanner cant, a hon fyddai ei symffoni olaf, wedi'i chyfansoddi ar ei wyliau haf ym Mürzzuschlag ym 1884 ac 1885. Ynddi, creodd waith o glasuriaeth dragwyddol, gyda'i chyfraneddau a'i dadleuon marwnadol a nwydus yn mynd yn groes i'r tueddiadau cerddorol diweddaraf. Nid oedd llawer o'i gyfeillion pennaf yn deall y symffoni ac ofnai Brahms y byddai'r darn yn rhy lym i lawer. Ysgrifennodd at yr arweinydd Hans von Bülow, "mae'n blasu o geirios nad ydynt wedi melysu." Pan chwaraeodd Brahms y symffoni i'r beirniad Eduard Hanslick, a oedd yn eithaf cydymdeimladol fel arfer, cwynodd, "drwyddi draw, roeddwn i'n teimlo fel fy mod i'n cael fy nghuro gan ddau ddyn clyfar iawn." Fe'i perfformiwyd am y tro cyntaf gan y Meiningen Orchestra dan arweiniad Hans von Bülow ar 25 Hydref 1885.

Mae craster cefndirol y symffoni yn awgrymu gwaith cymharol oeraidd, ond y Bedwaredd Symffoni yw gwaith mwyaf angerddol, barddonol a chwilfrydig Brahms. Mae ei symudiad cyntaf (*Allegro non troppo*) yn neidio'n syth i mewn i fyd hydrefol grymus gyda thema â thrydyddau disgynnol a chwechedau esgynnol sy'n creu ymdeimlad o brudd-der. Mae ail thema dreiddgar i ddilyn ac mae'r symudiad yn cloi gydag un o uchafbwyntiau dwysaf Brahms.

Mae'r ail symudiad (*Andante moderato*) yn agor ag utgorn, sy'n atseinio drwy amser yn ôl at iaith y moddau eglwysig canoloesol. Mae thema dyner y clarinetau'n arwain at syniad mwy grymus, sy'n cael ei chwalu gan thema o brydferthwch gorchfygol y sieloau. Nawr mae'r themâu a'r syniadau'n cael eu hailadrodd, gyda theimladau o golled darfodedig fan hyn a fan draw. Yn y bariau clo mae galwad yr utgorn yn dychwelyd, gan symud yn ddestlus drwy'r tri chywair ymhlyg ac agor allan drwy gasmentau newydd a hynod.

Y trydydd symudiad (*Allegro giocoso*) yw'r unig scherzo gwirioneddol o blith symffonïau Brahms (mae'r gweddill yn cynnwys *intermezzo* ysgafn). Yn gadarn, gloyw



SLUB
Wir führen Wissen.
Dresdner Philharmonie